# Y CABINET DYDD MAWRTH, 21 RHAGFYR 2021

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L Siencyn, Dafydd Meurig, Gareth Griffith, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Williams.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Catrin Thomas (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd)
Eitem 8: Huw Williams (Pennaeth Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd) a Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Craig ab Iago a Dafydd Wyn Williams (Pennaeth yr Adran Amgylchedd).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 30 TACHWEDD 2021

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2021 fel rhai cywir.

## 6. RHAGLEN CEFNOGI POBL

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd adnoddau un tro am ddwy flynedd, sef £193,217 yn 2022/23 a £155,990 yn 2023/24 o'r Gronfa Adfer COVID tuag at y Rhaglen Cefnogi Pobl.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai cais am arian un tro oedd yr adroddiad er mwyn cefnogi'r rhaglen trawsadrannol Cefnogi Pobl. Mynegwyd fod y ddwy flynedd diwethaf o argyfwng Covid-19 wedi bod yn anodd ac wedi amlygu pa mor fregus yw rhai o drigolion Gwynedd.

Eglurwyd dros y ddwy flynedd diwethaf fod y cynllun wedi delio a materion yn ymwneud a tlodi tanwydd a digartrefedd, ond bellach fod angen ffurfioli'r gwaith sydd yn cael ei wneud. Mynegwyd fod rhaglen yn ei le a tynnwyd sylw at y cynlluniau fyddai'n cael eu blaenoriaethu megis tlodi bwyd, tlodi tanwydd a chynhwysiad digidol.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith sydd wedi ei wneud yn draws adrannol a gyda partneriaid. Diolchwyd am y cyd-weithio sydd wedi arwain at greu cynllun a fydd yn gwneud gwahaniaeth yn y tymor byr i drigolion Gwynedd. Nodwyd y bydd yn cynllun yn gwneud popeth o fewn gallu'r Cyngor i gefnogi trigolion tra'n gweithio ar gynlluniau tymor hir.

Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd fod yr adroddiad yn crynhoi beth oedd modd ei gynnal dros gyfnod yr argyfwng. Mynegwyd gyda cyfnod adfer yn dilyn y pandemig a cynnydd yn y galw fod gofyn am fuddsoddiad i sicrhau cefnogaeth i bawb. Diolchwyd yn ogystal i'r ymdrechion cymunedol ynghyd a gwaith y trydydd sector dros y ddwy flynedd diwethaf.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Cefnogwyd yr adroddiad gan nodi diolch i'r partneriaid ac yr adrannau am gydweithio ar y cynllun hwn. Mynegwyd fod tlodi yn rhoi effaith andwyol ar blant a nodwyd yr angen i gefnogi teuluoedd fydd yn dod mewn i'r system budd-daliadau am y tro cyntaf.
- Mynegwyd fod y sefyllfa yn un anghyffredin, ar un llaw yn ymfalchïo yn y ffaith fod y Cyngor yn gallu cefnogi y trigolion ond ar y llaw arall yn cywilyddu o fyw mewn gwlad sydd a Llywodraeth sydd yn gwthio trigolion i fynd i fanciau bwyd er mwyn cynnal eu teuluoedd.
- Amlygwyd y prosiectau tlodi bwyd gan holi os oes cyfleodd o ran mynd i'r afael a gwastraff bwyd ynghyd a tyfu bwyd yn gymunedol. Cynigwyd i ail enwi yr elfen hwn o'r cynllun o dlodi bwyd i wytnwch bwyd neu Sicrhau Bwyd i Bawb.
- Amlygwyd nad yw tlodi yn broblem diweddar yng Ngwynedd ac ei fod yn wedi bod yn broblem ers nifer o flynyddoedd. Mynegwyd fod yr arian ar gyfer cyfnod o ddwy flynedd a mynegwyd na fydd tlodi wedi diflannu ymhen diwedd y cyfnod. Pwysleisiwyd yr angen i gyfarch yr angen sydd ei angen i drigolion ac amlygwyd partneriaid posib y gellid gweithio a hwy.
- Tynnwyd sylw at Hyrddwr Budd-dal Ysgolion a holwyd pan mai am flwyddyn fydd yn cael ei ariannu. Nodwyd fod trafodaethau wedi ei cynnal gyda'r Adran Addysg a nodwyd fod Penaethiaid wedi amlygu mai cymorth tai a budd-daliadau yw'r prif anghenion sydd yn codi o fewn ysgolion. Ychwanegwyd o ganlyniad i hyn, bydd linc penodol i ysgolion yn cael ei ariannu am flwyddyn fel bod modd deall beth yw'r galw ac efallai yn y

tymor hir bydd modd cyfeirio unigolion at wasanaethu penodol.

## 7. SEFYLDU CYD-BWYLLGOR CORFFORDIG RHANBARTH GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNWYD**

Cytunwyd mewn egwyddor i drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru trwy gytundeb dirprwyo i Gyd-Bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru yn amodol ar;

a. bod y fframwaith statudol mae Llywodraeth Cymru yn ei ddatblygu yn caniatáu dirprwyo'r swyddogaethau gweithredol perthnasol i Gyd-Bwyllgor Corfforaethol,
b. bod Cyd-Bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru yn cytuno i sefydlu Is-Bwyllgor, ag aelodaeth i'w gytuno gyda'r Cynghorau, i gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd.

Cynigwyd y trosglwyddiad hwn er mwyn cyflawni model llywodraethu symlach, gan osgoi dyblygu. Cyflwynir adroddiad manwl pellach ar y fframwaith ar gyfer gweithredu i gyfarfod dilynol o'r Cabinet.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cyd-Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd bellach wedi ei sefydlu dan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Mynegwyd ei bod yn orfodol bellach i chwe sir y Gogledd ei sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i drafod materion cynllunio a thrafnidiaeth ac ei bod yn ddewisol i drafod llesiant Economaidd. Eglurwyd fod yr adroddiad hwn yn gofyn i drosglwyddo Swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd trwy Gyd-Bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru.

Tywysodd y Pennaeth Cyllid, a gomisiynwyd i gydlynu'r gwaith o sefydlu'r Cyd-Bwyllgor, trwy'r cyflwyniad gan amlygu'r prif bwyntiau. Pwysleisiodd bellach fod y ddeddfwriaeth yn ei le, ac o'i ganlyniad fod angen gwneud y trefniadau priodol i gynnal cyfarfod cyntaf y Cyd-Bwyllgor cyn diwedd mis Ionawr fel bod modd mabwysiadu'r gyllideb ar gyfer 2022/23. Er hyn, mynegwyd na fydd y swyddogaethau cychwynnol y Cyd-Bwyllgor ddim yn cychwyn tan diwedd Mehefin 2022.

Eglurwyd fod dyletswydd cyfreithiol i ddelio gyda materion cynllunio ynghyd a trafnidiaeth, ac mai grym dewisol yw i ddelio a llesiant economaidd sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddelio drwy'r Bwrdd Uchelgais. Mynegwyd fod y gofyniad cyfreithiol a dyletswyddau yn ddi-oed ac mae brys i symud ymlaen. Pwysleisiwyd fod llawer o waith da wedi ei wneud yn rhanbarthol ac fod y gwaith o sefydlu egwyddorion wedi ei wneud yn barod. Amlygwyd yr angen i osgoi dyblygu trafodaeth, cadw costau i lawr tra yn ceisio sicrhau fod penderfyniadau yn cael ei gwneud mor agos i'r bobl a sy'n briodol bosib.

Amlygwyd swyddogaethau cychwynnol y Cyd-Bwyllgor a oedd yn cynnwys paratoi a diwygio Cynllun Datblygu Strategol ynghyd a datblygu cynllun trafnidiaeth rhanbarthol. Pwysleisiwyd fod y Bwrdd Uchelgais wedi bod yn gwneud gwaith da ac y bydd eu trosglwyddo i'r Cyd-Bwyllgor yn sicrhau na fydd dyblygu ac yn symleiddio'r trefniadau. Mynegwyd y bydd angen gwneud gwaith ar feysydd penodol cyn gwneud y penderfyniad yn llawn.

O ran llywodraethu, mynegwyd mae yr Is-Bwyllgorau fydd yn gwneud y gwaith trwm o ran y Cyd-Bwyllgor Corfforedig a bydd angen Is-bwyllgor Archwilio ynghyd a Phwyllgor Safonau. Eglurwyd y bydd modd dirprwyo aelodaeth y Is fyrddau a fydd yn rhannu'r baich rhwng Aelodau Cabinet ynghyd a cyfethol aelodau o ddiddordeb i'r maes i'r is-fyrddau. Nodwyd y bydd angen penodi Swyddogion Statudol, ac y bydd modd menthyg y swyddogion gan awdurdod leol i wneud y gwaith. Mynegwyd y bydd posibilrwydd mai Gwynedd fydd yn arwain ar y gwaith gan fod y Swyddogion Statudol wedi ei penodi i'r Bwrdd Uchelgais.

Amlinellwyd y camau nesaf gan nodi fod Cadeirydd Parc Cenedlaethol Eryri wedi ei ethol fel cynrychiolydd y Parc ar y Cyd-Bwyllgor. Mynegwyd y bydd trefniadau yn cael ei wneud gynnal y cyfarfod cyntaf yn ystod mis Ionawr. Mynegwyd gan ei fod yn orfodol i'w sefydlu ac ei fod yn cyfle i'w weithredu yn llwyddiannus ac mewn modd mae'r Cyngor a'r partneriaid yn hapus a hwy.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd dros y blynyddoedd diwethaf nad oedd cefnogaeth rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor. Eglurwyd nad oes dim dewis ond am symud y cynllun yn ei flaen gan nodi y bydd angen trefniadau craffu.
- Mynegwyd ei fod yn orfodol, ac o ganlyniad fod angen i'r Cyngor fod yn rhan ohono er mwyn llywio'r trefniadau. Ychwanegwyd fod angen sicrhau yn ogystal fod y Gymraeg yn cael lle priodol o fewn y Cyd-bwyllgor.
- Eglurwyd fod angen derbyn ei fod yn gam tuag ar ad-drefnu Llywodraeth Leol drwy'r drws cefn gan Lywodraeth Cymru, ynghyd a symud democratiaeth ymhellach oddi wrth y trigolion. Pwysleisiwyd nad oes dewis ond am dderbyn ond fod y datrysiad hwn yn un pragmataidd.

**8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS YR ADRAN BRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHORIAETH GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Catrin Wager.

**PENDERFYNWYD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn edrych ar ddwy adran a dechreuwyd gyda'r Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol. Tynnwyd sylw at gynllun Cymunedau Glan a Thaclus gan amlygu fod y cynllun hwn yn un o flaenoriaethau y Cyngor. Pwysleisiwyd fod angen gweithio gyda cymunedau i sicrhau fod ardaloedd yn edrych yn lan ac yn daclus. Ategwyd yn ystod cyfarfod blaenorol y

Cabinet eu bod wedi buddsoddi yn y timau i arwain y gwaith hwn.

Nodwyd fod y gwaith o ddad-garboneiddio y fflyd yn parhau ac y bydd dau gerbyd casglu biniau trydan yn cyrraedd cyn diwedd y flwyddyn. Ychwanegwyd fod grant o £300,000 wedi ei dderbyn er mwyn buddsoddi mewn pwyntiau gwefru cerbydau mawr o fewn lleoliadau'r Cyngor.

Amlygwyd cynllun Caerau Chwarae gan bwysleisio fod gan Gaeau Chwarae rôl bwysig o fewn y gymdeithas. Eglurwyd y bydd yr adran yn ail afael ar cynllun o gysylltu a chynghorau Cymuned neu grwpiau cymunedol i roi'r cyfle iddynt edrych ar ôl a rhedeg caerau chwarae plant. Nodwyd fod yr adran am gyflwyno bid i'r gronfa drawsffurfio i adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd hyd Fawrth 2020.

O ran perfformiad yr Adran Briffyrdd amlygwyd fod lleihad wedi bod yn y gyfradd ailgylchu ar draws y sir. Mynegwyd yr angen i atgoffa unigolion ailgylchu, a nodwyd y bydd y gwasanaeth yn parhau dros gyfnod y Nadolig. Nodwyd fod gorwario i'w gweld yn y maes Gwastraff ac fod hynny o ganlyniad i ansicrwydd grantiau, eglurwyd fod yr adran wedi comisiynu adolygiadau gan WRAP i edrych yn fanwl ar y gwasanaeth a gobeithir adrodd i'r Cabinet yn fuan.

Nodwyd mai prif flaenoriaeth adran Ymgynghoriaeth Gwynedd yw Rheoli Risgiau Llifogydd er mwyn cadw trigolion Gwynedd yn saff. Tynnwyd sylw at gynllun Wnion sydd i'w gweld yn ardal Meirionnydd ble mae'r adran yn cydweithio gyda'r Parc Cenedlaethol Eryri a ffermydd cyfagos i weld sut y bydd modd atal llifogydd drwy ddulliau rheoli naturiol a drwy wneud hyn hybu bioamrywiaeth.

Amlygwyd pryder gyllidol o fewn yr adran Ymgynghoriaeth gan fod y ffigwr incwm wedi ei leihau wedi i Lywodraeth Cymru dynnu yn ôl o gynllun Ffordd Osgoi Llanbedr. Er hyn, mynegwyd fod y staff yn brysur ymgeisio i adfer yr incwm drwy gynlluniau amgen.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd yr adroddiad gan holi gyda chynllun Wnion yn ardal Dolgellau a holwyd os y bydd trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r Aelodau Lleol. Nodwyd y bydd trafodaethau lleol yn cael eu trefnu ym mis Ionawr.
- Tynnwyd sylw at y cyfraddau ailgylchu gan amlygu fod tueddiad i fwy o ailgylchu ddigwydd dros gyfnod yr haf nac yn y gaeaf. Eglurwyd fod y sefyllfa yn dymhorol yn hanesyddol ac fod twristiaeth yn rhoi effaith ar lif gwastraff gweddilliol sy'n cael ei gasglu. Amlygwyd fod y cyfnod o flaen yr adran yn un heriol ac y bydd angen cynllun penodol i symud ymlaen i fod yn ailgylchu 70% o wastraff erbyn Mawrth 2023.
- Amlygwyd nad oes sôn am sefyllfa ariannol yr adrannau yn yr adroddiad perfformiad a mynegwyd angen i'r wybodaeth gael ei nodi i'r dyfodol.
- Nodwyd cefnogaeth i'r prosiect Caeau Chwarae sydd yn fater mor bwysig i drigolion Gwynedd. Mynegwyd o edrych ar siroedd eraill ei bod yn amlwg fod diffyg buddsoddiad yng nghaeau chwarae Gwynedd ac fod yr adran yn cydnabod yr angen i ail edrych ac i symud y cynllun yn ei blaen.
- Cytunwyd fod angen i flaenoriaethu gwaith atal llifogydd gan fod newid hinsawdd yn bryder sydd gan gymunedau. Ychwanegwyd fod gwaith datblygu yn cael ei wneud ar hyn o bryd i adnabod blaenoriaethau gan fod risgiau amlwg i'w gweld ar yr arfordir ac ar y mewndiroedd yn ogystal.

**9. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN AMGYLCHEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai dyma'r ail adroddiad gan yr adran o dan y drefn newydd. Eglurwyd fod yr adroddiad yn ôl ym mis Medi fod sefyllfa'r adran yn go ddu yn benodol yn Gwasanaeth y Cyhoedd. Mynegwyd fod y sefyllfa ar draws yr adran wedi gwella ac fod nifer o geisiadau am arian wedi ei gwneud er mwyn gwella'r sefyllfa'r adran. Nodwyd fod y broblem o benodi staff i Wasanaeth y Cyhoedd wedi ei amlygu yn genedlaethol ac fod yr adran yn edrych as sut i ddelio gyda hyn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd o fod yn rhan o'r Cyfarfod Herio Perfformiad fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o berfformiad yr adran. Nodwyd fod yr adran yn un sydd wedi bod dan lawer o bwysau o ganlyniad i'r pandemig, ond fod nifer o wasanaethau wedi gwella dros y misoedd diwethaf.
- Eglurwyd fod diffyg manylion am sefyllfa arbedion yr adran ond fod yr adran wedi bod dan bwysau cynyddol.
- O ran y gwasanaeth Olrhain a Diogelu, holwyd os oes problem penodi wedi bod gan fod staff yn cael ei penodi drwy sir arall. Nodwyd fod y staff wedi bod yn gweithio yn hynod galed dros y flwyddyn diwethaf, ond fod agwedd y cyhoedd iddynt wedi newid dros y misoedd diwethaf. Er hyn, gyda newidiadau i'r ffordd mae'r tîm yn gweithio mae wedi ei gwneud hyn haws iddynt dderbyn gwybodaeth gan unigolion.

**10. BLAEN RAGLEN Y CABINET**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y Flaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

Cyn cau'r cyfarfod bu i'r Cadeirydd nodi ei ddiolch a'i werthfawrogiad i Gareth Williams sydd wedi bod yn ohebydd democratiaeth dros y blynyddoedd diwethaf a sydd yn gadael y swydd ddiwedd yr wythnos.

Mynegwyd fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau rhyddhau gwybodaeth am y setliad, eglurwyd fod y setliad yn well na beth sydd wedi ei weld dros y degawd diwethaf. Nodwyd fod hyn yn amlygu gwerthfawrogiad Llywodraeth Ganol o'r gwaith bu i Lywodraeth Leol ei wneud dros gyfnod y pandemig.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.25 y.h.

**CADEIRYDD**